



Astudiaethau Achos Cwm Taf 2017

ASTUDIAETHAU ACHOS CWM TAF 2017

Cynnwys:

	Rhif Tudalen
Rhagair	2
Pobl â hanes o droseddu	3-9
Pobl dros 55 ag anghenion cefnogi	10-11
Pobl â phroblemau cam-drin sylweddau (cyffuriau ac alcohol)	12-15
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	16-18
Teuluoedd ag anghenion cefnogi	19
Rhieni sengl ag anghenion cefnogi	20-23
Menywod sy'n profi cam-drin domestig	24
Pobl ifanc ag anghenion cefnogi	25-28
Pobl ag anghenion corfforol neu synhwyraidd	29-35

Noder fod pob enw wedi ei newid er mwyn diogelu hunaniaeth defnyddwyr ein gwasanaeth.

Rhagair



Y Cyng. Rhys Lewis – Cadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf

Fel Cadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf, fy mhleser i yw cyflwyno casgliad o astudiaethau achos sy'n arddangos effaith werthfawr rhaglen Cefnogi Pobl ledled Merthyr Tudful a Rhondda Cynnon Taf. Yn ystod 2017, mae'r cynlluniau a ariannwyd drwy raglen Cefnogi Pobl wedi darparu cefnogaeth sy'n seiliedig ar denantiaeth i'r rheini a allai fel arall fod wedi canfod

eu hunain yn wynebu cael eu troi allan o'u cartrefi a'u gwneud yn ddigartref. Mae'n glir fod y rhaglen yn cyfrannu at lesiant meddyliol a chorfforol y rheini sy'n elwa ohoni drwy sicrhau fod ganddynt dai addas a chynaliadwy; ac mae'r gwerth ariannol o'r arbedion wnaed i'n gwasanaethau llinell flaen yn amlwg hefyd drwy'r arbedion cost amcangyfrifedig a welwch yn gynwysedig. Rwyf wrth fy modd o weld fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael y fath effaith gadarnhaol ar fywydau'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Edrychaf ymlaen at waith sy'n parhau i atal digartrefedd ledled Cwm Taf, gan ddarparu tenantiaeth ddiogel i unigolion a theuluoedd mewn cartrefi sy'n eu galluogi i fyw bywydau ffyniannus a llewyrchus.

Cafodd arbedion cost posibl eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio Cronfa Ddata Cost Uned Fersiwn 1.4 a grëwyd gan New Economy Greater Manchester a gellir cael mynediad ato yma: <http://www.neweconomymanchester.com/ourwork/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database>

Pobl â hanes o droseddu

Darparydd: Hafod Care

Cynllun: Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer anghenion cymhleth

Robert, 24, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Roedd Robert yn ymwneud â diwylliant gang / cyffuriau a arweiniodd at ddedfryd o garchar. Ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, sylweddolai Robert fod angen iddo newid ei ffyrdd neu fe fyddai, yn ei farn ef, yn diweddu fyny'n farw. Dychwelodd Robert i'w gartref teuluol ond sylweddolodd yn fuan nad oedd dianc rhag ei orffennol yn beth hawdd ei wneud a theimlodd mai symud i ffwrdd o'r ardal a'r gefnogaeth gywir oedd ei unig opsiwn. Pan symudodd Robert i mewn i'r cynllun, nid oedd yn derbyn unrhyw fath o incwm / budd-daliadau ac nid oedd erioed wedi cael tenantiaeth ei hun. Cafodd Robert ei gefnogi i gael mynediad at wasanaethau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'i iechyd meddwl a phroblemau cam-drin sylweddau. Mae Robert wedi bod yn rhydd o gyffuriau ers symud i mewn i dai â chymorth.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Mae Robert wedi bod yn derbyn cefnogaeth i ddeall gohebiaeth, galwadau ffôn, coginio a rheoli ei denantiaeth. Mae e wedi datgelu sawl gwaith i'r staff y byddai, oni bai am y gefnogaeth y mae wedi ei derbyn, un ai'n farw neu yn y carchar. Ar hyn o bryd mae Robert yn mynychu grŵp i ddynion sy'n cynnwys cymdeithasu a pharatoi at ddychwelyd i'r gweithle. Mae e hefyd yn mynychu grŵp garddio, grŵp cerdded a rhaglen gym.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

Teimla Robert ei fod yn gallu cadw ei gartref a'i hun yn ddiogel a saff. Mae e wedi gwneud cais am ESA a bu'n llwyddiannus yn hawlio hyn. Mae e hefyd wedi agor cyfrif banc. Nid yw Robert yn teimlo'n barod am gyflogaeth ar hyn o bryd ond mae hyn yn rhywbeth y mae'n ei drafod yn rheolaidd gyda'i Swyddog Prawf a'i weithiwr cefnogi. Mae e'n talu ei rent yn rheolaidd, cadw at reolau'r tŷ a chynnal a chadw ei gartref i safon dda. Mae Robert yn mynychu'r gym 1-2 waith yr wythnos, sy'n ei wneud i deimlo'n llawer gwell yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae e'n teimlo'n llawer gwell ers iddo fyw mewn llety â chymorth. Nid yw'n gwylio dros ei ysgwydd fel yr oedd yn arfer gwneud. Mae e'n cymryd meddyginiaeth ar gyfer rheoli ei gyflwr o orbryder bellach."

Cynlluniau i'r dyfodol:- Byddai Robert yn hoffi gallu byw'n annibynnol a sicrhau cyflogaeth amser llawn.

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Gostyngiad trosedd yn uwch na **£33750**
- Arbedion iechyd meddwl yn uwch na **£830**
- Arbedion digartrefedd yn uwch na **£3000**

Darparydd: ADREF

Cynllun: Cynllun Dechrau Newydd (ymddygiad troseddol)

Peter, 74, Merthyr Tudful

Cefndir:- Cafodd Peter ei gyfeirio at gynllun cefnogaeth fel y bo'r angen gan Adref, gan ei fod yn gadael y carchar ac roedd yn ymddangos y byddai'n anodd ei leoli mewn tŷ addas oherwydd ei oedran hŷn (74) a'i anallu blaenorol i gynnal tenantiaeth. Roedd wedi cael ei ddedfrydu i 7 mlynedd o garchar (gwasanaethodd 2 ohonynt) ar ôl euogfarn o losgi bwriadol yn ei eiddo blaenorol, a achosodd gymhlethdod pellach. Mae pobl sydd wedi troseddu fel Peter yn aml yn anodd eu hailgartrefu. Pan aeth e i'r carchar, ychydig o eiddo ei hunan oedd ganddo, a oedd wedi goroesi'r tân.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Gwnaeth Swyddogion Cefnogi Tenantiaeth gysylltu â CBSMT a staff Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn gosod tenantiaeth i Peter cyn gynted ag y gadawodd y carchar. Ar ôl dod o hyd i beth dodrefn ac eitemau hanfodol, gosodwyd nhw yn ei gartref newydd. Gwnaeth Swyddog Cefnogi Tenantiaeth drefnu bod gwasanaethau Peter yn cael eu trefnu cyn iddo symud i'r eiddo. Trefnodd y Swyddog Cefnogi Tenantiaeth fod Peter yn derbyn hamperi bwyd i'w helpu i ymdopi dros y cyfnod gwyliau (y 12fed i Ragfyr oedd hi). Yna, dechreuodd ar y dasg o drefnu budd-daliadau i Peter, nid oedd hyn yn syml gan ei fod yn derbyn DLA am weddill ei fywyd, ac roedd rhaid cael tystiolaeth a chefnogaeth am hyn oddi wrth staff y carchar, a oedd yn amharod i helpu. Yn y diwedd, byrthefnos ar ôl i Peter adael cystodaeth, roedd yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddo hawl drostynt yn ôl yn eu lle. Drwy gydol y cyfnod cefnogi, roedd Peter yn cael ei annog i osgoi ymddygiad troseddol a thair blynedd ar ôl i'r gefnogaeth ddechrau nid yw Peter wedi ail-droseddu.

Deilliannau a gyflawnwyd:- Mae Peter yn ei lety ei hun ar ôl gadael cystodaeth ac mae e wedi setlo lawr heb unrhyw ddigwyddiadau gwael. Nid yw wedi achosi na bod yn rhan o unrhyw broblemau gyda phreswylwyr eraill. Diolch i'r staff a oedd yn trefnu budd-daliadau Peter ar ôl iddo adael y carchar, a'i gynghori am arbed arian a thalu biliau yn brydlon, mae ganddo bellach swm sylweddol o arian wedi ei gynilo ac mae'n rheoli ei arian yn hawdd. Ers iddo adael y carchar, anogwyd Peter i ymgysylltu â'i landlord, a chysylltu ag ef os oedd problem ganddo. Diolch i'r staff am ei annog i wneud hynny yn ystod y cyfnod cefnogi hwn, mae ei denantiaeth wedi parhau mewn siâp da. Mae Peter wedi cael problemau â'i iechyd meddwl, yn sgil cael ei ynysu oddi wrth ei deulu, fodd bynnag, yn sgil cyfranogiad staff a wnaeth ei annog i ddod i gysylltiad â phobl eraill, mae iechyd meddwl Peter wedi gwella ac mae e mewn iechyd da yn feddyliol. Roedd iechyd Peter yn wael wrth iddo adael cystodaeth. Fodd bynnag gyda chefnogaeth, mae e wedi gallu cael triniaeth oddi wrth ei GP ac arbenigwr, er mwyn cynnal ei iechyd ar ei lefel bresennol (sy'n gymharol iach o ystyried ei fod yn 75 mlwydd oed).

Cynlluniau i'r dyfodol:- Yn sigl ei odra, nid yw Peter yn cynllunio'n rhy bell ymlaen llaw, ond mae ganddo uchelgais i fynd ar wyliau hir, a bellach, gall wneud hynny pe byddai'n dymuno gan ei fod wedi cynilo.

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Yn sgil ymyrraeth Cefnogi Pobl arbedwyd Peter rhag dychwelyd i'r carchar. Yn wreiddiol roedd o'r farn mai'r carchar oedd y lle gorau iddo. Cyfartaledd cost ar draws holl garchardai, yn cynnwys costau canolog (cost yn ôl y carcharor am bob blwyddyn) **£34,840**
- Gofal preswyl i bobl hŷn – cyfartaledd gwariant gros wythnosol am bob person, **£379.**
- Cyngor a chefnogaeth ddigartrefedd - cost atal digartrefedd neu gynllun opsiynau tai sy'n arwain at lwyddiant o ran atal digartrefedd **£699.**



Darparydd: Gwalia / Cynllun Pobl

Prosiect Castle House

Jack, 36, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Jack ei fagu mewn amgylchedd teuluol treisgar ac mae'n credu bod hyn wedi peri iddo gael problemau gyda'i dymor, diffyg llety a hanes troseddol. Nid yw Jack wedi profi llety parhaol ers plentyndod ac fel oedolyn, mae e wedi cael trafferth o ran dod o hyd i le i fyw ac mae wedi bod mewn ac allan o'r carchar, amrywiol hosteli, cartrefi teuluol a thai cyn-bartneriaid. Daeth perthynas â'i gyn-bartner i ben gan beri i'r ddau ohonynt fod yn rhieni sengl ac roedd Jack yn cael trafferth cyfathrebu â'i blentyn oherwydd y berthynas a phroblemau â cham-drin sylweddau. Cafodd Jack ddiagnosis o ADHDAD hefyd, a chanser yn ddiweddarach yn ystod cyfnod yn y carchar. Derbyniodd driniaeth am hynny gan ddod dros y salwch yn y pen draw. Mae wedi bod yn well ers 3 ½ mlynedd bellach ond mae'n parhau i gael apwyntiadau gwirio'i iechyd bob 3 mis. Gosodwyd Jack yn hostel Stryd y Felin am sawl mis cyn iddo gael ei gyfeirio at brosiect Castle House am yr ail waith.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Ar ôl iddo gyrraedd prosiect Castle House, roedd Jack yn dioddef â'i iechyd meddwl, iechyd corfforol, problemau cam-drin sylweddau, problemau perthynas, problemau tenantiaeth a phroblemau ariannol. Roedd angen cefnogaeth arno i fynd i'r drefn o gymryd ei feddyginiaeth yn rheolaidd, yn ogystal â chefnogaeth wrth ddelio â'i salwch blaenorol a gwiriadau canser. Roedd Jack yn delio gyda'r berthynas wael rhyngddo â'i gyn-bartner dros gyfnod o 5 mlynedd. Roedd hyn yn effeithio'n wael ar ei iechyd meddwl ac ADHD, fel ei fod yn cael trafferth i reoli ei hun o ddydd i ddydd. Roedd Jack yn cael trafferth cynnal cysylltiad â'i fab a oedd yn ei ardddegau, o berthynas flaenorol, a'i berthnasau agos yn sgil ei ymddygiad troseddol a phroblemau cam-drin sylweddau. Roedd peth sgiliau byw'n annibynnol gan Jack ond roedd angen cefnogaeth arno i goginio. Roedd hefyd angen cefnogaeth arno i reoli ei denantiaeth ei hun gan ei fod wedi cael cyn lleied o brofiad yn y gorffennol roedd e'n teimlo nad oedd yn gallu ymdopi gyda hyn ar ei ben ei hun. Roedd Jack hefyd yn cael trafferth rheoli arian, nid oedd yn hawlio'r budd-daliadau cywir, ac roedd angen delio gyda'i ddyledion yn dilyn achosion llys y gorffennol.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Jack yn teimlo'n ddiogel gyda Phrosiect Castle House ac yn yr ardaloedd amgylchynol, er gwaethaf cael trafferth â chymydog. Mae e am ddod o hyd i denantiaeth ei hun oddi fewn i'r ardaloedd amgylchynol, yn agos at ei deulu, ble mae'n teimlo'n ddiogel.
- Nid oedd Jack yn cymryd ei feddyginiaeth yn rheolaidd fel y dylai. Gyda chymorth oddi wrth staff yn esbonio wrtho am bwysigrwydd ei feddyginiaeth, mae Jack bellach yn ei gymryd ar yr amseroedd priodol yn rheolaidd. Cefnogwyd Jack hefyd i fynychu gwiriadau iechyd canser yn rheolaidd a'i annog o ran ei wellhad cyffredinol o ganser oddi fewn i'r prosiect, gan gynnwys cefnogi ei ffitrwydd ac ymarferion cyhyrau. Cafodd Jack hefyd gynnig i dderbyn help i allu ymdopi ag atgofion plentyndod ar ffurf cwnsela. Cafodd gefnogaeth i barhau i fonitro faint o alcohol roedd yn ei yfed ac roedd hynny'n llwyddiannus. Cafodd Jack hefyd anogaeth i reoli ei ADHD ac ymddwyn yn fwy priodol.
- Cafodd Jack gefnogaeth i ddelio gyda'r berthynas hir dymor a oedd wedi dod i ben a'i gefnogi i fynd i'r llys ynghylch digwyddiadau oedd yn berthnasol i hyn.

Mae Jack nawr hefyd mewn cyswllt rheolaidd â'i deulu uniongyrchol, a'i fab ydd yn ei arddedau, gan hyd yn oed mynd i ffwrdd gyda nhw am benwythnosau. Mae e'n parhau i adeiladu'r perthnasoedd hyn.

- Mae Jack bellach yn gallu siopa a choginio prydau iach i'w hun ac mae wedi gwella ei hylendid personol.
- Mae Jack yn hyderus bellach y gall reoli ei denantiaeth ei hun.
- Mae budd-daliadau Jack wedi cael eu rhoi mewn trefn (ESA a PIP) gyda chymorth oddi wrth staff. Rhoddwyd trefn ar ei ddyledion yn dilyn achosion llys blaenorol gan sefydlu cynlluniau talu. Mae e'n talu'r rhain yn rheolaidd bellach. Mae Jack hefyd wedi mynychu cyrsiau cyllidebu gan nad oedd yn hyderus yn rheoli ei arian, ac agorodd gyfrif cynilo yn y banc er mwyn cynilo ar gyfer ei denantiaeth ei hun.
- Mae Jack wedi mynychu amrywiol gyrsiau hyfforddi yn ystod ei gyfnod â Phrosiect Castle House yn cynnwys cyllidebu a diogelwch tân.

Mae Jack yn mynd i'r llys fis Hydref ynghylch ei gyn-bartner o'r berthynas hirdymor a ddaeth i ben. Yn y cyfamser, mae e wedi bod i weld eiddo yn agos at ei deulu. Mae e wedi cyflwyno cais am arian a bydd, gobeithio, yn rhoi cais i mewn am yr eiddo cyn bo hir.

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol (costau'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol tua **£500** am bob digwyddiad)
- Troseddu (mae un flwyddyn yn y carchar yn costio'r System Cyfiawnder Troseddol tua **£3,785**)
- Digwyddiad o Drosedd (costio'r heddlu tua **£1,648** am bob digwyddiad)
- Cam-drin alcohol (costio'r GIG tua **£1,800** y flwyddyn am bob yfwr dibynnol)
- Gwasanaethau ambiwlans (cyfartaledd cost galw ambiwlans i'r GIG yw **£216** am bob digwyddiad)
- Mynychu Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys (costau i'r GIG tua **£109** am bob digwyddiad)
- Cleifion preswyl iechyd meddwl, arbenigwr, ysbyty (cyfartaledd cost gwely am bob dydd i'r GIG **£429**)
- Cleifion allanol iechyd meddwl, mynychu ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob ymweliad **£140**)
- Gwasanaethau cwnsela mewn gofal meddygol sylfaenol (costio tua £50 yr awr i'r GIG **£50**)
- Cysgu ar y stryd (cyfartaledd gwariant blyneddol awdurdod lleol am bob unigolyn **£7,900**)

Darparydd: Gwalia Care and support

Cynllun: Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer anghenion cymhleth Henry, 46, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Henry ei ryddhau o'r carchar ym mis Chwefror 2017, ac ar 14 Gorffennaf clustnodwyd eiddo iddo yn Ne Cymru. Roedd yn byw mewn eiddo a gymeradwywyd yn Wrecsam cyn symud lawr i Dde Cymru. Mae hyn wedi bod yn gyfnod heriol iawn i Henry. Roedd angen llawer o gefnogaeth arno i'w helpu i ail-setlo yn y gymuned ac i gael y buddaliadau yr oedd ganddo hawl i'w cael hefyd.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:-

Roedd yn ofynnol cael cefnogaeth i dderbyn taliadau budd-dal gan ei fod yn hawlio credyd cynhwysol ac o dan amodau cosb. Roedd hyn yn ei wneud yn anodd iawn iddo gael ei rent wedi ei dalu a hefyd iddo gael arian i brynu bwyd ac eitemau hanfodol. Cafodd Henry gefnogaeth i ddefnyddio talebau banc bwyd i ddiwallu ei anghenion brys. Cafodd gefnogaeth i gyfathrebu gyda'i landlord ynghylch oedi â thaliadau rhent. Gwnaeth swyddog cefnogi tenantiaeth Henry gysylltu â Chredyd Cynhwysol yn rheolaidd am ddiweddariadau o ran taliadau. Gwnaeth e hefyd helpu Henry i ail-setlo yn y gymuned, gwneud cais i Gronfa Cymorth Ddewisol /Discretionary Assistance Fund i brynu ffwrn a dodrefn hanfodol i'w gartref newydd. Cafodd Henry gefnogaeth i ymgysylltu â'r gwasanaeth prawf a chadw ei holl apwyntiadau. Cafodd gefnogaeth i ymgysylltu ag asiantaethau eraill o ran mynd yn ôl i'r gwaith, cadw apwyntiadau gyda'r ganolfan waith, mynychu diwrnod iechyd meddwl y byd ac ymgysylltu â Chymunedau Ar Gyfer Gwaith.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Henry wedi dechrau gweithio gyda Chymunedau am Waith ac mae'n edrych ymlaen at fynd yn ôl i'r gwaith cyn gynted ag y gall. Bydd CamW yn darparu cefnogaeth o ran hyfforddi ac addysg.
- Bellach, mae Henry yn teimlo wedi setlo fwy yn y gymuned ac mae'r gefnogaeth yn parhau ar hyn o bryd i'w helpu i integreiddio ymhellach i mewn i'r gymuned.
- Mae Henry bellach yn derbyn budd-dal cymwysedig ac mae'n disgwyl taliad llawn yn fuan.
- Yn sgil diffyg talu rhent oherwydd ataliad Credyd Cynhwysol, roedd risg i'w denantiaeth. Cafodd hyn ei ddatrys bellach ac mae Henry mewn cysylltiad â'i landlord.
- Er mwyn i Henry barhau i ymgysylltu â'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu ac ail-setlo yn y gymuned a pharhau i ymgysylltu â'r asiantaeth berthnasol i'w anghenion cefnogi i gyflawni'r nod hwn.

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Cyfartaledd cost ar draws yr holl garchardai, yn cynnwys costau canolog (costau am bob carcharor yn ôl y flwyddyn) **£34840**.

- Trosedd – cyfartaledd cost am bob trosedd a gyflawnir, ar draws yr holl fathau o droseddu (ariannol, economaidd a gwerthoedd cymdeithasol **£663**.
- Cyngor a chefnogaeth ddigartrefedd - cost ataliad digartrefedd neu gynllun opsiynau tai sy'n arwain at ataliad llwyddiannus o ran digartrefedd **£669**.



Pobl dros 55 ag anghenion cefnogi

Darparydd: Age Connects Morgannwg –

Cefnogaeth yn y Cartref

William, 73, Merthyr Tudful

Cefndir:- Cyn ymyrraeth oddi wrth wasanaethau o Age Connects Morgannwg (ACM), roedd William yn byw mewn fflat un ystafell wely nad oedd yn diwallu ei anghenion o ganlyniad i ddirywiad corfforol. Roedd wedi cael strôc yn flaenorol ac roedd ganddo hanes o ddefnyddio alcohol. Roedd yn dyfod yn fwy dibynnol ar alcohol yn sgil y sefyllfa negyddol a oedd yn amgylchynu ei lety. Roedd William yn cael trafferth enfawr bod yn symudol annibynnol yn y fflat, a oedd yn fach iawn, a ddim yn addas i'w anghenion mwyach gan fod angen iddo ddefnyddio cadair olwyn. Roedd y llety yn cael effaith negyddol ar ei iechyd meddwl a'i iechyd yn gyffredinol. Daeth i fod yn fwyfwy ynysig heb allu cynnal cyfrifoldebau llety; felly daeth ei fflat i fod yn anniben. Roedd William yn smygu'n drwm ac roedd yn anwybyddu ei anghenion corfforol a hylendid. Cafodd ei ymrwymiad at apwyntiadau meddygol eu heffeithio hefyd. Effeithiwyd ar ei berthnasoedd â theulu ac eraill pwysig iddo am ei fod yn mynd yn grac ac yn rhwystredig â'i amgylchiadau a'i sefyllfa fyw.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Cafwyd cymorth i gael cartref newydd i William oddi wrth waith aml-asiantaethau yn gweithio â'r adrannau Tai a'r Tîm Allgymorth Cymunedol. Cafodd lety priodol a diogel oddi fewn i lleoliad gyda chymorth. Cysylltodd y Gweithiwr Cymorth ACM â Rheolwr y Cynllun ac roedd William yn gallu edrych o gwmpas fflatiau a oedd yn fwy addas ac wedi eu haddasu a oedd yn y lleoliad.

Yn unol â pholisïau cyfredol cymdeithas tai, roedd yn rhaid i'r llety yr oedd yn byw ynddo fod o safon briodol cyn y byddai modd arwyddo am unrhyw denantiaeth. Gwnaeth cefnogaeth barhaus oddi wrth y Gweithiwr Cefnogi ACM a thrafodaethau pellach â William ganiatáu iddo drafod ei ddewisiadau, aeth yn ei flaen i gydweithio â'i deulu a'i ffrindiau a ffynonellau modd fforddiadwy o lanhau ac addurno'r fflat. Derbyniodd y Gymdeithas Dai safon y fflat ar ôl iddo gael ei lanhau a'i addurno o'r newydd ac arwyddwyd am y denantiaeth newydd yn y lleoliad â chymorth.


Deilliannau a gyflawnwyd:- Ar hyn o bryd mae William yn rheoli faint o alcohol mae'n yfed ac wedi lleihau faint mae'n yfed yn ddyddiol yn ddifawr, o ganlyniad mae ei frodyr a'i chwiorydd wedi bod yn ymweld ag ef yn aml. Mae ymyrraeth asiantaethau fel y tîm adfer a darpariaeth o wasanaethau gofal cartref wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i symudedd, safonau hylendid a llesiant cyffredinol William. Mae'r llety newydd yn gynaliadwy ac mae'r rheolaeth hir dymor yn gadarnhaol. Mae'r lleoliad â chymorth yn ei alluogi i deimlo'n ddiogel a saff ac wedi hybu ei annibyniaeth.

Mae'r adleoli hefyd wedi gwella ei hyder a'i llesiant cyffredinol gydag arwyddion sylweddol o ymgysylltu â'r holl weithwyr proffesiynol a thenantiaid eraill yn y lleoliad. Mae William yn rhan o'r gymuned bellach ac mae arwahanrwydd cymdeithasol wedi ei leihau. Mae'r llety newydd yn y lleoliad â chymorth yn diogelu holl agweddau diogelwch William. A bellach, gan fod William wedi cael cefnogaeth i sefydlu debydau uniongyrchol i dalu ei filiau, nid yw'n poeni am reoli ei arian na chael ei hun mewn i ddyled.

Mae'r llety newydd wedi galluogi William i deimlo'n ddiogel a saff ac i fod yn annibynnol yn ei gartref ei hun sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ei iechyd meddwl. O ganlyniad i'r llety newydd, mae William yn gallu bod yn fwy annibynnol yn ei fflat. Gyda chymorth oddi wrth y tîm adfer, mae ei hyder wedi cynyddu a'i symudedd a gofynion corfforol wedi gwneud cynnydd effeithiol ac yn cael eu cynnal. Mae anghenion hylendid hefyd yn cael eu cynnal gyda chymorth y tîm gofal. Mae llety â chymorth yn darparu gwasanaeth parhaus a hir dymor i William felly mae'r risg o ddigartrefedd wedi ei leihau'n sylweddol.

Ataliad:-

- Cam-drin alcohol - amcangyfrif cost flynyddol i'r GIG am ddibyniaeth alcohol, y flwyddyn yn ôl pob yfwr dibynnol, **£2,015**; gwerth cymdeithasol **£1,565**
- Cyfartaledd cost darpariaeth gwasanaeth i bobl sy'n dioddef anhwylderau iechyd meddwl, y person y flwyddyn, yn cynnwys dementia (pob oedran, yn cynnwys plant, glasoed ac oedolion) - costau ariannol ac economaidd: **£4,420** y person, y flwyddyn).
- Cyngor a chymorth am ddigartrefedd – cost ataliad digartrefedd neu opsiynau cynllun tai sy'n arwain at lwyddiant o ran atal digartrefedd **£699**.



Pobl â Phroblemau Cam-drin Sylweddau

Darparydd: Grŵp Pobl - Gwalia

Cynllun: Prosiect Castle House,

Alfie 28, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Mae Alfie yn ŵr sengl â phroblemau cam-drin alcohol a sylweddau, problemau iechyd meddwl, a phroblemau gydag arian a'i denantiaeth. Treuliodd Alfie dros 2 flynedd yn y carchar, gyda sawl wythnos yn dilyn hynny yn Hostel Mandaville. Mae e wedi bod mewn ac allan o lety ansicr ers blynyddoedd, sydd wedi arwain at ei ymddygiad troseddol. Pan gyrhaeddodd Alfie Brosiect Castle House, roedd yn teimlo'n isel ac yn unig. Roedd yn cael trafferth â'i iechyd meddwl, cam-drin sylweddau, problemau tenantiaeth a phroblemau ariannol. Roedd Alfie yn ysu am adael y ffordd o fyw yr oedd yn ei dilyn ac roedd angen help arno i wneud dewisiadau gwell ac iachach roedd Alfie yn delio â pherthnasoedd teulu a pherthynas ramantus a oedd newydd ddod i ben.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:-

- Roedd angen cymorth ar Alfie i reoli ei arian, gan gynnwys blaenoriaethu a thalu biliau a mynd i'r afael â'i amrywiol ddyledion. Roedd hefyd angen cymorth arno i gynnal ei denantiaeth, gan mai ychydig o brofiad blaenorol oedd ganddo.
- Cafodd Alfie gefnogaeth i gofrestru a mynychu apwyntiadau rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol i'w helpu i ddelio â'i iechyd meddwl a'i broblemau cyffuriau ac alcohol, roedd hyn yn cynnwys meddyg lleol a chwmsler. Derbyniodd amrywiol feddyginiaethau i'w helpu â'i broblemau. Yn ystod ei gyfnod â Phrosiect Castle House, cafodd Alfie ei annog i fwyta bwydydd iach a byw ffordd o fyw iach. Mynychodd sesiynau coginio iach rheolaidd a darganfod diddordeb mawr mewn coginio.
- Cafodd Alfie gefnogaeth i gysylltu â'i deulu ac adeiladu ar y berthynas oedd ganddo â hwy. Mae e bellach yn ymweld â nhw'n rheolaidd, gan fynychu gweithgareddau a phrydau bwyd. Mae e hefyd yn ymdopi'n well gyda'r amgylchiadau sy'n amgylchynu ei gyn-bartner ar ôl gofyn am help a chymorth oddi wrth staff.
- Derbyniodd Alfie gefnogaeth i ymgeisio am fudd-daliadau yr oedd ganddo hawl i'w cael yn cynnwys Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Derbyniodd gefnogaeth ac arweiniad i flaenoriaethu a thalu ei filiau'n rheolaidd yn cynnwys ei wasanaethau. Ymhellach, derbyniodd gefnogaeth i fynd i'r afael â'i ddyledion oddi wrth sawl lle yn cynnwys dirwyon llys, budd-dal tai a'r ganolfan waith. Mae'r rhain i gyd yn cael eu talu bellach.
- Derbyniodd Alfie gefnogaeth ac anogaeth o ran mynychu cwrs hyfforddi bythefnos o hyd ar gyfer cymhwyster PTS. Derbyniodd y cymorth oedd ei angen arno i adolygu'n ddyddiol a chwblhau a llwyddo yn y cwrs yn y pen draw.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Alfie bellach yn teimlo'n ddiogel gyda Phrosiect Castle House a'r gymuned amgylchynol; mae e'n gweithio ar ei broblemau o orbryder ac nid yw bob amser yn teimlo'n bryderus pan fydd yn mynd allan.
- Dangosodd y staff i Alfie sut oedd popeth yn gweithio yn ei fflat a sut i'w gadw'n lân a thaclus a beth i'w wneud os oedd angen unrhyw gynnal a chadw.
- Bellach, gall Alfie fyw'n fwy annibynnol gan ei fod wedi cael ei gefnogi i edrych ar ei ôl ei hun. Hefyd, gwnaeth Alfie fwynhau mynychu sesiynau coginio iach gyda Phrosiect Castle House.

- Mae Alfie yn gwirfoddoli bob wythnos yn rheolaidd bellach gan ddefnyddio ei gerdyn PTS, a'r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at gyflogaeth yn y dyfodol.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Mae Alfie am gael cyflogaeth barhaol yn y diwydiant rheilffordd a symud i'w denantiaeth ei hun. Mae e am gadw ar y llwybr cul a byw bywyd heb garchar a chyffuriau.

Mae aros gyda Phrosiect Castle House yn costio tua **£818.18** y mis - 5 mis = **£4,090.90**

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol (costio'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol tua **£500** am bob digwyddiad)
- Troseddu (mae un flwyddyn mewn carchar yn costio'r System Cyfiawnder Troseddol tua **£3,785**)
- Digwyddiad o Droseddu (costio'r heddlu tua **£1,648** y digwyddiad)
- Cam-drin Alcohol (costio'r GIG tua **£642** y person)
- Cam-drin Alcohol (costio'r GIG **£1800** y flwyddyn, am bob yfwr dibynnol)
- Gwasanaethau Ambiwlans (cyfartaledd cost galw am ambiwlans i'r GIG yw **£216** y digwyddiad)
- Mynychu Adran Damweiniau ac Achosion Brys / A&E (costio'r GIG tua **£109** y digwyddiad)
- Mewn-gleifion iechedd meddwl, arbenigwr, ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG yn ôl gwely am ddiwrnod **£429**)
- Cleifion allanol iechedd meddwl, mynychu ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob mynychiad **£140**)
- Cleifion allanol iechedd meddwl, mynychu ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob mynychiad **£50** yr awr)
- Cysgu ar y stryd (cyfartaledd gwariant blynyddol awdurdod lleol yn ôl yr unigolyn **£7,900**)

Darparydd: Gwalia / Cynllun

**Pobl: Prosiect Castle House John, 54,
Rhondda Cynon Taf**

Cefndir:- Mae John yn ŵr sengl sy'n hynod o ddibynnol ar alcohol. Mae ganddo hefyd broblemau colli cof a phroblemau gyda'i gefn. Mae John wedi symud o gwmpas llawer, yn cynnwys bod yn ddigartref ar y stryd am sawl wythnos yn y gorffennol. Cafodd John ei leoli yn Hostel Stryd y Felin am sawl mis cyn dod at Brosiect Castle House, ble y mae wedi bod yn byw ers bron i flwyddyn.

Pan ddaeth John at Brosiect Castle House, roedd ei iechyd yn dirywio. Nid oedd yn derbyn llawer o gefnogaeth oddi wrth asiantaethau allanol ac roedd yn ddibynnol ar alcohol, gan yfed bob dydd. Roedd John hefyd yn cael trafferth cynnal cysylltiad â'i deulu ac roedd angen help a chymorth arno i reoli ei hylendid personol a sgiliau byw'n annibynnol, gan gynnwys siopa mewn siop briodol a choginio prydau i'w hun a pheidio â chael pryd parod bob nos. Roedd hefyd angen cymorth ar John i reoli ei arian, achos nid oedd ei fudd-daliadau'n gywir ac nid oedd yn blaenoriaethu biliau.

Cefnogaeth a dderbyniwyd a Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae John yn teimlo'n ddiogel gyda Phrosiect Castle House ac yn yr ardaloedd o'i amgylch. Mae e am ddod o hyd i'w denantiaeth ei hun oddi fewn i'r ardaloedd amgylchynol, yn agos at ei deulu, ble y gall deimlo'n ddiogel.
- Cafodd John gefnogaeth i ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol a fyddai'n rhoi cefnogaeth iddo gyda'i broblemau corfforol a dibyniaeth. Roedd hyn yn cynnwys ei gofrestru â meddyg lleol a'i gyfeirio at y Tîm Cyffuriau Cymunedol ac Alcohol i'w helpu i reoli ei yfed.
- Mae John mewn cysylltiad rheolaidd â'i deulu bellach ar ôl cael anogaeth i gysylltu â nhw.
- Cafodd John ei annog i weithio ar ei hylendid personol a'i gefnogi i siopa mewn siop briodol ar ddechrau ei gefnogaeth. Cafodd ei ddysgu sut i goginio prydau i'w hun hefyd a mynychu gweithgareddau bwyta'n iach yn y gymuned. Cafodd John gefnogaeth hefyd i gael y tocyn bws am ddim yr oedd ganddo hawl i'w gael, fel ei fod yn gallu teithio'n rhydd.
- Cafodd John gefnogaeth i gadw ei fflat yn lân a thaelus a'i ddysgu sut i ddefnyddio cardiau cyn-daliad ar gyfer gwasanaethau.
- Cafodd John gefnogaeth i reoli a blaenoriaethu ei filiau yn ogystal â rhoi trefn ar y budd-daliadau yr oedd ganddo hawl i'w cael, fel ESA, a PIP (Taliad Annibyniaeth Personol/ Personal Independence Payment).
- Mynychodd John amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi yn ystod ei amser â Phrosiect Castle House yn cynnwys Cyllidebu a Diogelwch Tân.

Mae aros gyda Phrosiect Castle House yn costio tua **£818.18** y mis - 12 Mis =
£9,818.16

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Cam-drin alcohol (amcangyfrif cost o **£1,800** i'r GIG y flwyddyn am bob yfwr dibynnol)
- Gwasanaethau Ambiwylans (cyfartaledd cost galw ambiwlans i'r GIG yn ôl y digwyddiad **£216**)
- Mynychu Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys (mae pob senario yn costio'r GIG tua **£109** y digwyddiad)
- Cleifion Preswyl Ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob episod **£1,807**)
- Cleifion Allanol i'r Ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob mynychiad claf allanol **£111**)
- Achosion dydd ysbyty (cyfartaledd cost i'r GIG am bob episod **£689**)
- Cysgu ar y stryd (cyfartaledd gwariant blynyddol awdurdod lleol am bob unigolyn **£7,900**)



Pobl ag Anghenion Iechyd Meddwl

Darparwydd: Hafod

Cynllun Cymdeithas Gofal Cyfyngedig: Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer anghenion cymhleth Linda, 52, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Linda ddiagnosis o orbryder difrifol, iselder difriol a hunan werth isel ac roedd yn byw o dan amodau gwael iawn, a oedd yn cyfateb â digartrefedd a oedd yn sgil cael ysgariad a cholli ei swydd. Roedd Linda yn cysgu ar sofffa am flynyddoedd yn nhŷ ei rheini ble roedd ei thad a'i brawd iau yn byw ac yn nhai pobl eraill yr oedd yn eu hadnabod. Cafodd ei cham-drin gan y ddau berthynas yn feddylol a chorfforol ac yn ariannol. Cafodd yr holl beth effaith anferthol ar ei hiechyd meddwl a llesiant gan ei harwain i gam-ddefnyddio alcohol fel modd o ymdopi â'i bywyd.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Roedd amgylchedd cartref sefydlog yn angenrheidiol (llety â chymorth a rennir) a darparwyd hynny yn y pen draw i Linda ac fe wnaeth ddatrys y rhan fwyaf o'i phroblemau. Ar ôl derbyn cymorth wedi ei bersonoli oddi wrth Ofal Hafod, a chefnogaeth i gael mynediad at ymyraethau iechyd meddwl oddi wrth asiantaethau eraill, gwnaeth hunan barch Linda wella, a wnaeth ei galluogi i gyflawni y rhan fwyaf o'i nodau fel y nodwyd ar ei chynllun cefnogi unigol. Mae hi bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen a byw'n annibynnol. Bydd cefnogaeth ar y lefel isaf yn parhau o fudd iddi hi i fynd i'r afael â phroblemau alcohol ac mae Yfed yn Gall Heneiddio'n Dda yn rhoi cymorth parhaus, a gwelir bod tystiolaeth o ganlyniadau da yn digwydd. Derbyniodd gefnogaeth â sgiliau cyllideb a nawr mae'n rheoli ei harian yn llawer gwell. Mae hi wedi magu'r hyder i ymgysylltu â'r gymuned ac mae'n cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau cyfranogol Hafod i denantiaid.

Deilliannau a Dderbyniwyd:- Mae hi'n rheoli ei llety bellach yn dilyn cefnogaeth ddwys hynny yw talu'r biliau, rhoi gwybod am ddiffygion, rheoli'r tŷ ac yn y blaen. Mae hi hefyd wedi ennill hyder ac mae hi hyd yn oed yn arwain o ran materion iechyd a diogelwch yn y tŷ, gan gynorthwyo ei chyd-denantiaid.

Llwyddodd Linda i gwblhau ei chwrs GRAMO (Get Ready and Move-On) a wnaeth, dywed, roi sgiliau iddi a rhagor o wybodaeth ddefnyddiol y bydd hi'n ei chymhwyso wrth symud ymlaen at fyw'n annibynnol. Mae hi'n teimlo'n barod i symud ymlaen gyda breuddwydion a gobeithion ynghylch beth fydd hi'n ei wneud yn ei dyfodol.

Mae Linda yn cyflawni gwiriadau Iechyd a Diogelwch a phrofion larwm cymunedol yn annibynnol. Mae hi'n rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion a allai effeithio ar ei hiechyd a'i Diogelwch hi ac eraill.

Mae'r sgiliau cyllidebu a chynllunio wedi ei helpu hi yn ei nod o ddechrau cynilo arian a chadw allan o ddyled. Mae Linda'n cynllunio i fynd yn ôl i'r gwaith cyn gynted ag y bydd hi'n cael ei lle ei hun i fyw ynddo. Mae hi'n cydsynio â'i thenantiaeth ac mae hi bob amser yn talu ei rhent yn brydlon, gan y byddai'n well ganddi hi bob amser dalu ymlaen llaw er mwyn osgoi mynd i ddyled.

Mae Linda yn mwynhau ac yn hoffi ymgysylltu â grwpiau cerdded a siarad, ac mae Hafod yn darparu'r rheini bob dydd Iau ola'r mis.

Mae Linda wedi llwyddo i leihau faint o alcohol mae hi'n ei yfed ac yn parhau i weithio ar leihau hynny ymhellach. Mae ei gweithiwr Yfed yn Gall Heneiddio'n Dda yn falch o'r cynnydd mae hi wedi ei wneud ac maen nhw'n parhau i gydweithio er mwyn cyrraedd nodau Linda.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Prif gynllun Linda yn y dyfodol yw mynd yn ôl i'r gwaith. Mae hi bob amser yn siarad am fynd yn ôl i wneud swydd debyg i'r un oedd arfer bod ganddi pan oedd hi'n gweithio gyda Loreal yn Talbot Green fel glanhawraig a gweinyddydd Cymorth Cyntaf. Roedd hi wrth ei bodd â'i swydd ac mae hi'n awyddus iawn i ddychwelyd i'r gwaith.

Amcangyfrif o arbedion cost:-

- Cyflogaeth ac economi - **£13,300**
- Iechyd – Alcohol - **£2,015** (ariannol) **£1,565** (ariannol)
- Digartrefedd – uwch ben **£3,000**



Darparydd: Cymdeithas Tai Rhondda

Cynllun: Prosiect Ymyrryd mewn Digartrefedd (HIP) Matt, 35, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Roedd Matt yn aros mewn ysbyty iechyd meddwl ac er i'w iechyd meddwl wella nid oedd modd iddo adael yr ysbyty o achos prinder llety addas ar gyfer ei anghenion corfforol. Nid oedd Matt erioed wedi byw'n annibynnol yn y gorffennol.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Derbyniodd Matt gefnogaeth i'w gynorthwyo i ymgartrefu yn ei gartref newydd wedi i lety addas gael ei ddynodi. Sicrhaodd y gefnogaeth ei fod yn trefnu taliadau talu cyson ar gyfer biliau cyfleustodau a'i fod yn gwneud cais am fudd-daliadau addas. Caniataodd y cymorth hwn iddo gael ei gyfeirio at gwrs sgiliau cyfrifiadurol. Mae Matt wedi ymgartrefu yn ei lety ac yn dysgu coginio prydau bwyd i'w hun, mynd i siopa a mynychu apwyntiadau iechyd yn annibynnol. Mae wedi sefydlu pwyllgor preswylwyr ac wedi trefnu gweithgareddau â phreswylwyr eraill yn y fflatiau lle mae'n byw.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

Mae Matt wedi dechrau mynychu dosbarthiadau cyfrifiadurol, yn rheoli eifudd-daliadau a'i gyllideb yn effeithiol ac nid yw bellach yn byw mewn lleoliad sefydliadol gan fod ganddo ei gartref ei hun. Nawr fod ganddo lety addas, mae iechyd corfforol Matt wedi gwella. Mae wedi sylwi ar welliant yn ei les meddyliol, gall fyw'n annibynnol a gwneud ei ddewisiadau ei hun.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

Hoffai Matt wella ei sgiliau drwy fynychu hyfforddiant a dosbarthiadau addysgol. Hoffai hefyd ddod o hyd i waith yn y pen draw.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Cyfartaledd gwariant gros wythnosol i gynorthwyo oedolyn sydd ag anabledd corfforol mewn gofal preswyl yn Lloegr - **£892**
- Gweithiwr Cymdeithasol – gwasanaethau i oedolion: cost bob awr, gan gynnwys costau cymwysterau - **£59**

Teuluoedd ag anghenion cefnogi

Darparydd: Cymdeithas Tai Rhondda

Cynllun: Prosiect Ymyrraeth Ddigartrefedd (HIP)

Leighton, 55, RCT

Cefndir:- Cafodd Leighton ei gyfeirio at HIP gan ei fod ar fin cael ei droi allan ymhen 4 diwrnod am ôl-ddyledion rhent gwerth £3066. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith fod y teulu'n destun cap budd-daliadau ac yn derbyn 50c yr wythnos, yn unig mewn Budd-daliadau Tai. Mae gan Leighton bartner a 5 o blant. Roedd gan y teulu hanes o ymgysylltiad gwael â'r gwasanaethau.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Derbyniodd Leighton gymorth i fynd i'r llys i wneud cais, dros dro i atal cael ei droi allan. Cafodd yr achos ei ohirio er mwyn rhoi amser i'r teulu weithio gyda'r gefnogaeth yr oedd yn ei dderbyn i ddatrys ei broblemau budd-daliadau a gwneud ymyriadau addas i gynnal y denantiaeth. Gan ddefnyddio'r gefnogaeth hon, ymgeisiodd Leighton am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer un o'i blant a dyfarnwyd £55.65 yr wythnos iddynt. Codwyd y cap ar y lwfansau wedi i'r teulu dderbyn y Lwfans Byw i'r Anabl ac maent yn awr yn derbyn budd-daliadau tai o £91 yr wythnos sy'n talu'r rhent am eu cartref. Derbyniodd y teulu gymorth i drefnu cynllun talu fforddiadwy gyda'i landlord er mwyn talu'r ôl-ddyledion.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae'r denantiaeth wedi cael ei chynnal ac mae'r teulu'n parhau i wneud taliadau tuag at ei ôl-ddyledion.
- Mae'r teulu ar ei ennill yn ariannol a gallant yn awr ganolbwyntio ar fywyd teuluol a darparu cartref diogel i'w plant.
- Mae cymorth Home Start i'r teulu wedi dod i ben gan nad ydynt mwyach yn bryderus ynghylch sefyllfa tai'r plant.
- Mae'r teulu wedi ymgysylltu'n dda â'r gwasanaethau. Mae pawb yn y teulu bellach yn byw heb boeni am fygythiad o gael eu troi allan. Mae Leighton yn rheoli ei fudd-daliadau ac yn trefnu'r gyllideb yn effeithiol.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Atal cael eu troi allan - **£6,680**
- Cais am Ddigartrefedd – cyfartaledd cost a chostau parhaol sy'n ymwneud â digartrefedd statudol - **£2,501**
- Llety dros dro - **£162** yr wythnos
- Cost cyngor ar dai sy'n cael eu hariannu trwy'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol - **£174**
- Cost sicrhau tenantiaeth breifat, newydd trwy gynllun adneuo/gwarantu rhent - **£294**
- Cyfartaledd cost gweinyddu penderfyniad ar gais am ddigartrefedd - **£375**
- Costau'r broses er mwyn dynodi cyfrifoldeb digartrefedd yr awdurdod lleol yn dilyn ailgartrefu cleient - **£375**

Cynlluniau i'r dyfodol:- Mae Leighton yn cynllunio i barhau i fyw gyda'i deulu yn eu cartref, yn rhydd o fygythiad cael eu troi allan.

Teuluoedd Un Rhiant ag anghenion cefnogi

Darparydd: ADREF

Cynllun: Cynllun Diwygio Budd-daliadau'r Wladwriaeth
Debbie, 27, Merthyr Tudful

Cefndir:- Cafodd Debbie ei chyfeirio at Gynllun Cymorth fel y bo'r Angen, Adref drwy Garth Villas (Hostel Adref.) Roedd Debbie newydd roi genedigaeth cyn hynny ac roedd angen cartref addas arni er mwyn gallu darparu ar ei chyfer hi ei hun a'i phlentyn newydd anedig. Roedd Debbie'n cysgu o sofffa i sofffa ac ar adegau, doedd ganddi hi a'i phlentyn newydd anedig unman i aros. Gadawodd Debbie ei chartref cyn hynny gan adael ei ddau blentyn arall yno. Maent yn awr y byw gyda'u Mam-gu a'u Tad-cu ac o dan ofal Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Bu Debbie'n ddigartref ar amryw o achlysuron, o ganlyniad i berthnasau ansefydlog.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Derbyniodd Debbie gefnogaeth gan ei Swyddog Cefnogi Tenantiaeth er mwyn dod o hyd i gartref 2 ystafell wely addas lle y mae hi yn awr yn byw gyda'i phlentyn ifancaf. Mae budd-daliadau perthnasol a chyllideb effeithiol yn eu lle. Mae Debbie'n cydgysylltu'n dda â'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae pob un o'r 3 plentyn yn awr wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr diogelu plant ac yn derbyn isafswm mewnbwn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r 2 fab yn parhau i fyw gyda'u Mam-gu a'u Tad-cu ac yn ymweld â hi'n gyson gan aros dros nos. Trwy gydol y gefnogaeth y mae wedi ei dderbyn, cafodd Debbie ei hannog i beidio â dechrau perthnasau anaddas ac mae'n parhau i fyw yn ei chartref ei hun ac osgoi digartrefedd. Mae Debbie'n derbyn cymorth o hyd ac yn parhau i weithio'n dda ag ymarferwyr proffesiynol.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Debbie'n awr yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer ei sefyllfa ac mae'n teimlo'n ddiogel, o ganlyniad.
- Derbyniodd gymorth i sefydlu ei thenantiaeth ei hun a sylweddoli anfanteision caniatáu i bobl eraill fyw yno gyda hi. Mae'n awr yn teimlo'n abl i warchod mynediad i'w chartref ei hun a pheidio peryglu ei thenantiaeth.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Cynllun Debbie ar gyfer y dyfodol yw cael cartref diogel a sefydlog iddi hi ei hun a'i phlant ac i beidio â chael dim i'w wneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

Gallai ymyrraeth Cefnogi Pobl wneud arbediad posib i'r Awdurdod Lleol o **£117**

yr wythnos ar gyfer 'rhoi cartref i deulu digartref mewn darpariaeth hostel.' Byddai hefyd yn deg i ragdybio petai Debbie wedi parhau i gysgu o sofffa i sofffa byddai ei phlentyn ifancaf mewn gofal ac yn costio **£2,501** y flwyddyn i'r awdurdod lleol.

Darparydd: Gofal a Chymorth Gwalia Care Cynllun Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer anghenion cymhleth Jessica, 26, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Roedd Jessica yn ei chael yn anodd talu'r dreth ystafell wely ac roedd ganddi ôl-ddyledion. Yn sgil ceisio talu ei hól-ddyledion rhent roedd ganddi filiau eraill fel nwy, trydan, dŵr a'r teledu ar ôl heb eu talu. Cafodd derbyn biliau coch cyson effaith niweidiol ar iechyd meddwl Jessica. Roedd Jessica'n gweithio'n rhan amser ond roedd yn ffonio'n aml i ddweud ei bod yn sâl. Dechreuodd ynysu ei hun yn ei chartref ac roedd hyn yn cael effaith ar ei merch a oedd yn colli llawer o'r ysgol. Yna, derbyniodd Jessica orchymyn troi allan gan ei landlord.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Derbyniodd Jessica gefnogaeth gan ei swyddog cefnogi tenantiaeth er mwyn mynychu apwyntiad doctor a thrafod ei hiechyd a'i lles. Cafodd gefnogaeth i wneud cais am dai yn ôl disgresiwn gan wneud cais i'r ôl-ddyledion rhent gael eu clirio o ganlyniad i'r ffaith iddi dderbyn gorchymyn troi allan. Derbyniodd Jessica gefnogaeth yn ogystal gan ei swyddog cefnogi tai i gysylltu â chwmnïau cyfleustodau, gwneud cais am PIP a dyfeisio cynllun cyllid. Cysylltodd ei swyddog cefnogi tenantiaeth â phennaeth Jessica er mwyn trafod ei habsenoldeb o'r gwaith a'i chefnogi i wneud a mynychu cyfarfod gyda'r ysgol i drafod absenoldeb ei merch.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Cafwyd adolygiad o'i meddyginiaeth a chafodd bresgripsiwn meddyginiaeth newydd a'i chyfeirio at y tîm iechyd meddwl.
- Dyfarnwyd tai yn ôl disgresiwn iddi a chliriwyd ei hól-ddyledion rhent. Tynnodd Landlord Jessica y gorchymyn troi allan yn ôl. Rhoddwyd cynlluniau talu yn eu lle er mwyn cynorthwyo Jessica ag ôl-ddyledion a biliau cyfleustodau'r dyfodol. Derbyniodd gefnogaeth i greu a chadw at gynllun cyllideb.
- Dyfarnwyd PIP iddi a defnyddiodd yr ôl-daliadau i glirio ôl-ddyledion ei biliau cyfleustodau. Gan i PIP gael ei ddyfarnu, roedd hi hefyd yn gymwys ar gyfer premiwm anabledd credyd treth gwaith. Defnyddiodd yr ôl-daliadau er mwyn prynu car a hwyluso ei thaith i'r gwaith.
- Mae cyflogwr Jessica wedi rhoi ystafell dawel iddi, lle y gall fynd iddi os bydd yn teimlo straen, ei bod wedi ei chynhyrfu neu wedi ei llethu.
- Mae pennaeth yr ysgol yn awr yn deall sefyllfa iechyd meddwl Jessica ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol lle y bydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau fod ei merch yn cael addysg dda.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Mae Jessica'n gobeithio am sefydlogrwydd ariannol fel y gall, yn y dyfodol, brynu ei thŷ ei hun a gweithio'n llawn amser unwaith y bydd ei merch yn mynychu'r ysgol uwchradd.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Cyfartaledd costau cyllidol ar gyfer adfeddiannu syml **£6,680**
- Cyngor a chefnogaeth ar ddigartrefedd – cost cynllun atal digartrefedd neu gynllun opsiynau tai sy'n arwain yn llwyddiannus at atal digartrefedd **£699**

- “Lwfans Byw i’r Anabl (HISTORIC) Elfen Ofal: uchaf” **£82**
- “Taliad Annibyniaeth Personol, Elfen Byw’n Ddyddiol” : uwch **£82**
- Cyfartaledd cost darparu gwasanaeth ar gyfer oedolion sy’n dioddef o iselder a/neu anhwylderau gorbryder. Cost ar gyfer pob unigolyn, pob blwyddyn - costau cyllidol ac economaidd **£977**
- Cost fesul awr ar gyfer gwasanaethau cwnsela gofal meddygol sylfaenol **£52**
- Rhaglen addysgu emosiynol yn yr ysgol – cost darparu ar gyfer pob plentyn, pob blwyddyn **£148**



Darparydd: ADREF

Cynllun: LATSS (Local Authority Tenancy Support cynllun)

Jane, 22, Merthyr Tudful

Cefndir:- Cafodd Jane ei chyfeirio at Wasanaeth Cefnogi yn ôl y galw, Adref drwy'r gymdeithas tai lleol gan fod ganddi ôl-ddyledion rhent a bod angen atgyweirio'r tŷ. Mae Jane yn rhiant sengl a chanddi ddau o blant ifanc. Mae un ohonynt yn oed ysgol a'r llall yn iau.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Anogwyd Jane i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, MVH a gwasanaeth cefnogi yn ôl y galw, Adref er mwyn osgoi cael ei throï allan. Derbyniodd gymorth gan ei swyddog cefnogi tenantiaid i gyllido'n fwy effeithiol a gosod amserlen lanhau yn ei lle er mwyn cynorthwyo â gweithgaredd glanhau wythnosol a dyddiol. Wedi i'r ôl-ddyledion a'r amserlenni glanhau gael eu gwneud yn gynaliadwy, dechreuodd Jane ganolbwyntio ar ei haddysg. Derbyniodd gymorth gan Adref ac mae hi yn awr wedi cofrestru yn y coleg. Bu ei Swyddog Cefnogi Tenantiaeth yn gymorth iddi ddod o hyd i le gofal plant ym meithrinfa'r coleg er mwyn ei galluogi i gofrestru ar y cwrs. Cwblhaodd Jane flwyddyn yn y coleg ac mae yn awr yn cynllunio i ddychwelyd ar gyfer yr ail flwyddyn. Uchelgais fawr Jane mewn bywyd oedd bod yn gyfreithwraig er mwyn rhoi budd iddi hi ei hun a'i ddau blentyn ac er mwyn sefyll ar ei thraed ei hun.

Deilliannau a gyflawnwyd:- Derbyniodd Jane gymorth er mwyn ymchwilio i gyrsiau addysgol a chofrestru yn y coleg. Ers hynny, mae wedi rhagori yn ei chwrs ac yn parhau i wneud yn dda. Derbyniodd gymorth yn ogystal i archwilio a sicrhau gofal plant i'w dau blentyn.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Mae Jane yn awr ar drydedd flwyddyn ei chwrs a'i dyheadau ar gyfer y dyfodol yw llwyddo yn ei chwrs a chanfod gwaith oddi fewn i'r proffesiwn cyfreithiol, o bosib fel cyfreithwraig.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Cyfartaledd cost gyllidol troi allan cymhleth **£7,276**
- Rhoi plentyn mewn gofal maeth yr awdurdod lleol: cyfanswm cost (wythnosol) **£722**

Gwagedd sy'n profi cam-drin domestig

Darparydd: ADREF

Cynllun: LATSS (Cynllun Cefnogi Tenantiaeth yr Awdurdod Lleol) Florence, 26, Merthyr Tudful

Cefndir:- Cafodd Florence gymorth oddi wrth Adref i symud i mewn i dai cymdeithasol, ar ôl i'w pherthynas â'i phartner ddod i ben, ar ôl iddo ddyfod yn dreisgar tuag ati. Yn ystod y cyfnod hwn roedd y ddau ohonynt yn byw mewn tenantiaeth breifat ar rent drws nesaf i'w fam. Roedd Florence bob amser wedi bod â'r awydd i weithio a chefnogi ei hun a byw'n annibynnol.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Ryw flwyddyn ar ôl i'r gefnogaeth ddechrau, cafodd Florence a'i dau fab gymorth oddi wrth Adref i symud i eiddo mwy addas. Ar ôl i'w mab ieuengaf ddechrau'r ysgol cwblhaodd Florence gwrs trin gwallt. Ar ôl derbyn cymorth oddi wrth Adref, cafodd Florence waith rhan amser yn yr ystafelloedd te yng Nghastell Cyfarthfa. Mae Florence bellach yn bwy gyda'i phartner newydd sydd hefyd yn gweithio llawn amser gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Deilliannau a gyflawnwyd:- Gydag anogaeth a chyngor oddi wrth staff ADREF, roedd Florence yn gallu dod o hyd i gyflogaeth yn y diwedd ar ôl cael cyngor ynghylch cyrsiau addysgiadol.

Mae Florence yn gweithio rhan amser bellach ac mewn perthynas â rhywun sydd hefyd mewn cyflogaeth llawn amser.

Mae Florence bellach yn byw mewn tenantiaeth addas ac yn gallu rheoli'r eiddo gyda'r lefel isaf o gyfranogiad oddi wrth staff Adref.

Mae swydd dda gan Florence bellach ac mae hi am iddi hi a'i phartner ofalu am ei theulu heb orfod brwydro a heb orfod dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Mae hi ymhell ar y ffordd i gyflawni hyn, gan fod swydd llawn amser gan ei phartner hefyd.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Buddion ariannol ac economaidd oddi wrth hawliwr di-waith yn dechrau gweithio

£9,163

- Llety dros dro – cyfartaledd cost wythnosol o gartrefi teulu digartref mewn llety hostel

£117 yr wythnos.

Pobl ifanc ag anghenion cefnogi

Darparydd: Gwalia

Cynllun: Tŷ Dyffryn

Kariem, RhCT, 17

Cefndir:- Roedd Kariem yn byw yn Sudan a gadawodd ar ei ben ei hun ym mis Mehefin 2015. Cyrhaeddodd yr Eidal ac yna Paris ym mis Ebrill 2016 gan ddiweddu yn Calais ac yna Prydain yn 2017. Ar hyn o bryd y mae'n ceisio lloches ym Mhrydain ac yn mynychu apwyntiadau â'r Swyddfa Gartref. Pan gyrhaeddodd Tŷ Dyffryn nid oedd yn gallu deall na siarad ryw lawer o Saesneg.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Mae Kariem yn derbyn cefnogaeth oddi wrth Dîm 16+ sy'n rhoi lwfans wythnosol iddo ar gyfer bwyd ayb. Mae'r staff yn Nhŷ Dyffryn yn ei gefnogi i reoli ei gyllideb wythnosol a chael mynediad i'r gymuned leol i siopa a chael mynediad at drafnidiaeth. Mae Staff yn cefnogi Kariem i gael mynediad at ddosbarthiadau Saesneg mewn coleg lleol a'i gefnogi gydag unrhyw waith cartref a roddir. Mae Kariem wedi derbyn cefnogaeth i gofrestru â Meddyg Teulu, deintydd ac optegydd lleol. Mae Kariem hefyd wedi bod yn chwarae pêl droed yng Nghaerdydd gyda thîm pêl-droed o Sudan. Gwnaeth y staff gefnogi Kariem i gael mynediad at Fosg lleol i sicrhau y byddai'n gallu parhau â'i ymrwymïadau crefyddol. Mae gan Kariem hefyd fynediad i'r ardaloedd cymunedol yn y prosiect ble y mae'n coginio ei brydau Swdanaiidd gan alluogi pobl ifanc eraill i gymryd rhan.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Kariem wedi dysgu i gyllidebu ei arian wythnosol a blaenoriaethu gwariant. Mae Kariem wedi datblygu ei wybodaeth o'r Saesneg. Gall bellach gyfathrebu'n fwy effeithiol â phobl ifanc eraill ac asiantaethau allanol. Mae Kariem bellach yn gyfforddus yn cyfieithu heb google translate!
- O ganlyniad i gael mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol mae Kariem yn ddyn ifanc ffit ac iach.
- Mae Kariem wedi adeiladu rhai perthnasoedd gwyb â phobl ifanc eraill ar y prosiect a staff. Mae Kariem wedi dysgu'r staff a'r bobl ifanc gryn dipyn am ei ddiwylliant a'u cynnwys wrth wneud prydau Swdanaiidd blasus.
- Mae Kariem wedi gallu parhau i ymarfer ei grefydd ac wedi gallu parhau i chwarae pêl-droed gyda thîm pêl-droed Swdanaiidd, mae hyn wedi ei annog i gadw'n ffit ac iach ond hefyd i adeiladu perthnasoedd gyda'r gymuned.
- Mae sgiliau byw Kariem wedi gwella'n fawr, mae e'n rheoli ei ystafell a'r ardaloedd cymunedol yn dda, mae e'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y prosiect ac yn mynd i'r holl apwyntiadau. Mae Kariem yn rheoli ei arian yn dda, yn teimlo'n ddiogel yn ei amgylchiadau ac yn mynychu gwersi Saesneg mewn coleg lleol.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Nid yw Kariem yn gallu gweithio gan nad oes ganddo'r dogfennau sy'n datgan y gall gael ei gyflogi yn y DU. Mae e'n chwarae pêl-droed yn rheolaidd ac yn coginio prydau iach, teimlo'n feddyliol iach ac yn cynllunio cael dogfennau i geisio lloches ym Mhrydain fel y gall barhau yn ddiogel ac iach.

Darparydd: Gofal a Chefnogaeth Gwalia

Cynllun: Tŷ Dyffryn

Liam, 21, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Liam ei gyfeirio at Ddyffryn yn dilyn tor-perthynas â'i fam. Nid oedd unrhyw sgiliau byw'n annibynnol gan Liam a oedd yn golygu y byddai'n elwa oddi wrth gefnogaeth cyn cael ei denantiaeth ei hun yn y gymuned.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Mae Liam wedi derbyn cefnogaeth ynghylch sut i reoli ei incwm ei hun, ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant, rheoli tenantiaeth ac ynghylch ei iechyd a'i lesiant. Dechreuodd Liam ymgysylltu gyda chefnogaeth o'r diwrnod cyntaf, roedd hyn o fantais iddo o ran datblygu sgiliau bywyd a dyfod yn annibynnol yn gyflymach. Ymgysylltodd Liam mewn gweithgareddau yn y prosiect, mynychodd apwyntiadau a mynd i'r afael â'i iechyd meddwl.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- O ganlyniad i Liam yn mynd i'r afael â'i anghenion iechyd meddwl, rhoddwyd hyder iddo, cymhelliant pellach a help gyda chyfathrebu.
- Gwnaeth Liam gynigion annibynnol am eiddo ar home finder ac ar ôl pum mis o fyw yn Nhŷ Dyffryn cafodd gynnig tenantiaeth yn y pen draw gyda Trivallis. Roedd Liam yn gyffrous o gymryd ei gam nesaf tuag at fod yn annibynnol ac o ddefnyddio'r sgiliau a gafodd drwy ei gefnogaeth.
- Symudodd Liam i'w eiddo ym mis Medi, ac mae e'n derbyn cymorth ble y bo'i angen i sicrhau ei fod yn dechrau bywyd annibynnol mewn modd cadarnhaol.
- Mae Liam yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn ei eiddo newydd.
- Mae Liam yn mynychu rhaglen hyfforddi gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog ac yn ymgysylltu â Chymunedau am Waith i archwilio cyfleoedd am swyddi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Mae Liam hefyd yn mynychu unrhyw ffair swyddi sy'n digwydd yn yr ardal leol. Mae Liam yn frwdfrydig a bydd yn mynychu unrhyw ddyddiau agored / cyrsiau sydd o ddiddordeb iddo.
- Mae Liam yn gallu rheoli cyllideb heb fynd i ddyledion. Mae Liam yn derbyn cymorth ble y bo'i angen i'w helpu i reoli ei denantiaeth newydd.
- Mae iechyd corfforol da gan Liam ac mae'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored
- Mae Liam yn dioddef o orbryder ac iselder ond yn ei reoli'n dda gyda meddyginiaeth. Nid yw Liam yn gadael i'w iechyd meddwl effeithio arno rhag ymgymryd ag unrhyw dasgau na chyflawni unrhyw weithgareddau o ddydd i ddydd.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Cynlluniau Liam i'r dyfodol yw cynnal ei denantiaeth newydd yn annibynnol a'i wneud yn gartref hir dymor. Hoffai Liam adeiladu ar ei berthynas â'i deulu a chael cyflogaeth yn y diwydiant diogelwch.

Darparydd: Gweithredu Dros Blant Cynllun: Tîm Cefnogi Ieuenctid Annabelle, 18, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Bu farw mam Annabelle pan oedd hi'n 14 oed ac aeth i fyw gyda'i Mam-gu. Dirywiodd eu perthynas a symudodd i The Grange cyn sicrhau ei thenantiaeth gyntaf yn 17 oed. Roedd angen i Annabelle ddysgu amrywiaeth o sgiliau byw'n annibynnol i'w galluogi i reoli ei thenantiaeth. I ddechrau roedd hi yn y coleg yn astudio trin gwallt ar ddechrau'r denantiaeth, ond gwnaeth problemau gwrth gymdeithasol yn y denantiaeth ei hatal rhag canolbwyntio ar ei hastudiaethau. Yna dechreuodd berthynas nad oedd yn iach gyda pherson ifanc a oedd yn defnyddio cyffuriau a daeth i fod yn feichiog..

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Un o'r pethau cyntaf wnaeth Gweithredu Dros Blant oedd newid biliau Annabelle i'w henw hi ei hun, oherwydd yn wreiddiol roedden nhw wedi cael eu cofrestru yn enw pennaeth gwasanaethau cymdeithasol a oedd yn ymddwyn fel gwarantydd oherwydd mai ond 17 oed oedd Annabelle. Roedd hyn yn atal Annabelle rhag hawlio gostyngiad cyfradd dŵr 'HelpU' ac yn y blaen. Cafodd gefnogaeth i gofrestru â meddyg lleol a chafodd gwmni i fynd i'w hapwyntiad cychwynnol. Cafodd Annabelle gefnogaeth i ffurfiannu a chynnal rhestr gyllidebu'r cartref er mwyn aros yn ddiddyled. Cafodd gefnogaeth hefyd i gael amrywiol eitemau cartref yn cynnwys dillad gwely, hwfer, llestri, polion llenni ac yn y blaen. Cafodd Annabelle gymorth i gwblhau a chyflwyno ffurflenni newydd ar gyfer gostyngiad Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor ar ôl iddi gael ei phen blwydd yn 18 oed, a gwnaeth ei gweithiwr cefnogi gysylltu â'r cyngor lleol i sicrhau fod hyn yn cael ei ôl-ddyddio fel nad oedd unrhyw ddyledion wedi cronni. Cafodd Annabelle gymorth a chefnogaeth i adrodd yn ôl am ddigwyddiadau ac i gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, ei darparydd tai a'r heddlu o ran problemau ymddygiad gwrth gymdeithasol difrifol yn ei bloc o fflatiau. Yn y pen draw cafodd ei gosod yn ôl ar y gofrestr dai a symudodd i fflat gyda dwy lofft ar gyfer genedigaeth ei mab. Cafodd Annabelle gymorth a chefnogaeth i ail-gofrestru gyda meddyg arall yn ei hardal newydd. Cyflwynodd ei gweithiwr cefnogi, gyfeiriad at Dîm o Amgylch y Teulu i sicrhau fod Annabelle yn cael peth cefnogaeth ar ôl i'r gefnogaeth denantiaeth ddod i ben, ac yn y pen draw, gwnaethant ddarparu carped i'r lolfa yn ei chartref parhaol. Gweithiodd gweithiwr cefnogi Annabelle ochr yn ochr â'r Tîm o Amgylch y Teulu i'w chefnogi a'i chynorthwyo i roi gwybod am yr holl ddiffygion yn y denantiaeth newydd i'w Chymdeithas Dai, gan fod tamprwydd a lleithder yn broblem fawr yn y fflat. Cyflwynodd ei gweithiwr cefnogi gŵyn hefyd i'r gymdeithas dai i sicrhau ei bod hi'n cael ei symud yn barhaol i fflat arall â dwy lofft a oedd yn ffit iddi hi fyw ynddi. Cafodd Annabelle gefnogaeth i gael amrywiaeth o eitemau babi oddi wrth roddion elusennol. Cafodd gefnogaeth hefyd i gyflwyno a chwblhau cais am ostyngiad Cynllun Cartref Cynnes, ar gyfer gostyngiadau i'w biliau trydan (gwerth £140).

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Roedd Annabelle yn teimlo'n anniogel iawn yn ystod ei thenantiaeth gyntaf yn sgil problemau ymddygiad gwrth gymdeithasol fel partïon drwy'r nos a defnydd o gyffuriau. Yn dilyn cefnogaeth cafodd ei symud a theimlodd yn fwy diogel, ac yna cafodd ei chefnogi i symud eto i eiddo heb damprowydd na lleithder. Mae hi bellach mewn tenantiaeth dawl/ cyfforddus sy'n ffit iddi hi a'i mab bach newydd. Nid yw

mewn cyswllt â thad y babi oherwydd mae e'n parhau i gamddefnyddio cyffuriau ac fe fyddai'n fygythiad i'w mab.

- Mae Annabelle bellach mewn fflat dwy lofft, dawel heb ddiffygion, ac mae hi ar hyn o bryd yn creu cartref cyfforddus yno â'r offer sydd eu hangen iddi hi a'i mab.
- Er clod iddi, mae Annabelle wedi dilyn yr holl gyngor a roddwyd iddi am gyllidebu ac mae wedi aros yn ddiddyled a thalu ei biliau'n rheolaidd. Mae hi wedi gwneud cais yn annibynnol am Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant.
- Cafodd Annabelle ei chefnogi i gofrestru â meddyg ddwywaith. Ar ôl iddi symud eto, cofrestrodd yn annibynnol â meddyg newydd.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Mae Annabelle yn canolbwyntio ar fod yn fam dda yn unig ar hyn o bryd, a chreu cartref cyfforddus â'r offer angenrheidiol. Mae TAF a PAFT yn ymgysylltiedig (Parents as first teachers) i'w helpu i gyflawni'r nod hwn. Yn y dyfodol, hoffai gael swydd fel ei bod yn gallu darparu drosti hi ei hun a'i mab. Cafodd Annabelle gefnogaeth am 1 flwyddyn.



Pobl ag anghenion corfforol neu synhwyrdd

Darparwydd: Cartrefi Cymoedd Merthyr

Cynllun: Cefnogaeth fel y bo'r angen

Iris, 77, Merthyr Tudful

Cefndir:- Collodd Iris ei chlyw pan oedd hi'n 14 mlwydd oed ar ôl dioddef o feningitis. Ar y pryd, gwnaeth y driniaeth a gafodd beri iddi fod ag ofn meddygon ac ysbytai a arweiniodd ati hi'n methu â chael ei diffyg clyw wedi ei asesu neu ei drin yn gywir. Dysgodd ddarllen gwefusau a dyna sut y mae hi wedi parhau i fyw o ddydd i ddydd heb adael i neb wybod ei bod hi'n fyddar mewn gwirionedd. Nododd y swyddog cynllun fod gweithwyr yn cael trafferth cael mynediad i'w heiddo felly aeth i ymweld â hi a thra ei fod yno, sylweddolodd fod sain y teledu dros 100 a bod isdeitlau ymlaen. Nid oedd ei chymdogion erioed wedi cwyno am y sŵn.

Cefnogaeth a dderbyniwyd:- Cyfeiriodd y swyddog cynllun Iris at Wasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Synhwyrdd Oedolion am asesiad iechyd a hefyd ei chyfeirio at y tîm COTS am asesiad cartref i'w helpu gyda chymhorthion yn ei chartref. Mynychodd y tîm synhwyrdd ei chartref a dod ag offer a oedd yn gallu datgelu fod Iris yn gallu clywed seiniau traw uchel ar lefel uchel iawn. Cafodd cloch/larwm ei ffitio i'w chartref – sef y peth cyntaf yr oedd wedi ei glywed ers 60 o flynyddoedd. Mae ei chartref wedi cael larwm dân arbenigol bellach ac mae'r gwasanaeth tân yn ymwybodol o'i sefyllfa. Bellach, mae gan Iris glustffonau arbenigol ac offer arall sy'n ei galluogi i sgwrsio â phobl, clywed cloch y drws ffrynt a chlywed ei theledu ar lefel 22. O ganlyniad mae hi wedi dechrau cymdeithasu â phreswylwyr eraill, mynychu clwb gwau yn y neuadd gymunedol ac mae'n addysgu preswylwyr eraill sut i wneud crochet. Yr uchafbwynt fwyaf iddi hi yw gallu clywed ei hoff raglen deledu am y tro cyntaf, X Factor.

Deilliannau a gyflawnwyd:- Gall Iris glywed seiniau am y tro cyntaf ers dros 60 o flynyddoedd sydd wedi galluogi iddi gymdeithasu ac ymuno â gweithgareddau yn y Neuadd Gymunedol. Mae hi bellach yn cymryd mwy o ran yn ei chymuned leol ac â'i chymdogion. Mae ei pherthynas â'i theulu a'i ffrindiau'n gryfach o ganlyniad i'w chyfathrebu gwell. Mae hyn wedi rhyddhau'r pwysau ar aelodau ei theulu, gwella teimlad o ddiogelwch sydd gan Iris yn ei chartref a'i chefnogi i fwy'n annibynnol yn ei llety.

Mae Iris yn teimlo'n llawer mwy diogel nawr ei bod hi'n gallu clywed cloch y drws ffrynt, larymau mwg ac yn y blaen.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Hoffai Iris ymgysylltu fwy gyda'i chymuned leol a gwneud ffrindiau. Mae ei chyfranogiad yn y grŵp gwau a dangos pobl sut i wneud crochet yn ei helpu i adeiladu ei hyder a dod allan o'i chragen.

Darparydd: Citizens Advice Merthyr Tudful

Cynllun: Welfare Reform

David, 60, Merthyr Tudful

Cefndir:- Mae David yn byw gyda'i wraig mewn eiddo cymdeithas dai. Mae dioddef o orbryder ac iselder, anabledd yn ei ben-lin dde a chafodd ddiagnosis o ddementia yn ddiweddar. Mae hyn wedi golygu na all weithio mwyach na chwblhau gweithgareddau dyddiol yn ddibynadwy ac yn ddiogel. Roedd David yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) – Cyfradd Uwch Symudedd o £58 yr wythnos. Dywedodd gwraig David fod angen peth cymorth ariannol pellach arnynt ond doedden nhw ddim yn gwybod ble i ddechrau.

Cefnogaeth a Ddarparwyd:- Cafodd David gyngor arbenigol o ran DLA a PIP gyda'r risgiau sydd ynghlwm wrth drosglwyddo o'r naill fudd-dal i'r llall drwy ymfudiad. Cafodd David gefnogaeth drwy'r wybodaeth fanwl, gwybodaeth, rheolau, rheoliadau a phroses.

Ar ôl i David dderbyn y cyngor uchod, gwnaeth hyn ei alluogi ef a'i wraig i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch gwneud cais am ymfudiad i PIP ac yna diweddu'r dyfarniad DLA cyfredol. Dewisodd David ddechrau'r broses ond roedd angen cymorth ymarferol i gwblhau'r ffurflen gais PIP fanwl. Cafodd y ffurflen gais PIP ei chwblhau gyda David yn defnyddio ein gwybodaeth arbenigol a chyflwynwyd DWP. Yn y cyfamser cafodd David ei gefnogi a'i gyfeirio yn fewnol i'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Roedd incwm pensiwn gan David a rhoddwyd iddo'r cyfle i dderbyn taliad cyfandaliad oddi wrth y darparydd pensiwn. Gallai hyn fod wedi cael goblygiadau ar eu hincwm budd-daliadau yn sgil gwahanol incwm pensiwn ac felly roedd yn bwysig iddo wirio yn gyntaf.

Deilliannau a gyflawnwyd:- Ar ôl yr holl gyngor uchod, dewisodd David dynnu lawr eu pensiwn a weddai eu sefyllfa orau. Gwnaeth David gadarnhau eu bod (ef a'i wraig) yn fodlon â'r canlyniad. Yna cafodd David benderfyniad oddi wrth PIP, a wnaeth ddyfarnu rhagor o fudd-dal bywyd bob dydd a rhagor o fudd-dal symudedd: Enhanced Daily Living a Enhanced Mobility £141.10 yr wythnos am gyfnod dim mwy na 10 mlynedd. Dyma'r dyfarniad uchaf gellir ei roi, am y cyfnod hiraf. Gwnaeth y dyfarniad PIP hwn, yn ei dro, roi hawl i wraig David hawlio Lwfans Gofalwr sef £62.7 yr wythnos ac aeth yn ei blaen i'w hawlio. Gwnaeth hawliad ychwanegol drwy'r budd-daliadau uchod olygu fod budd-dal tai David wedi cynyddu o £71.20 yr wythnos i hawliad llawn er £86.00 yr wythnos.

Mae David wedi cael cefnogaeth ariannol ychwanegol drwy fudd-dal anabledd sy'n eu galluogi i wario arian ar eitemau/gweithgareddau sy'n eu galluogi i gael gwell ffordd o fyw a rheoli eu hiechyd. Mae David bellach wedi cynyddu cyllideb a budd-dal tai gan wneud eu cost tai yn is ac yn haws ei reoli. Mae David yn dioddef llai o orbryder bellach a gall ganolbwyntio ar reoli ei iechyd meddwl heb orfod poeni am arian.

Enillion ariannol a sicrhawyd i ddefnyddiwr y gwasanaeth:-

PIP= £7,337.20

PIP= £73,372

Lwfans Gofalwr = £3260.40

Lwfans Gofalwr = £32,604

Budd-dal Tai= £769.60

Budd-dal Tai = £7,696

Cyfanswm = £11,368.20 y flwyddyn

Mae'r cynnydd hwn o ran cefnogaeth ariannol wedi golygu fod gwraig David yn gallu fforddio i ofalu am ei gŵr llawn amser bellach heb orfod gofyn am gymorth iechyd na gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gefnogaeth ariannol hefyd wedi golygu fod y cwpwl yn gallu canolbwyntio ar iechyd a chynnydd David yn hytrach na'u sefyllfa ariannol a sut y maen nhw'n mynd i ymdopi yn y dyfodol.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Gofal Nyrsio i bobl hŷn – cyfartaledd gwariant gros wythnosol yn ôl y person= **£480** yr wythnos o arbedion (ariannol).
- Cyfartaledd cost darpariaeth gwasanaeth i oedolion sy'n dioddef o iselder a/ neu anhwylderau gorbryder, yn ôl y person y flwyddyn – costau ariannol ac economaidd = **£977** y flwyddyn o arbedion (ariannol).
- Cyfartaledd cost darparu gwasanaeth i bobl sy'n dioddef o anhwylderau iechyd meddwl, yn ôl y person y flwyddyn, yn cynnwys dementia (pob oed, yn cynnwys plant, pobl yn eu harddegau ac oedolion) – costau ariannol ac economaidd = **£2197** y flwyddyn o arbedion (ariannol).

Cynlluniau i'r dyfodol:- Nid oes angen dim cyngor na chymorth pellach ar David, fodd bynnag, mae iechyd ei wraig yn dirywio ac mae posibilrwydd y bydd hi'n hawlio PIP ar ei chyfer hi ei hun yn y dyfodol. Dywedodd gwraig David y bydd hi'n ôl mewn cysylltiad pan fydd hi'n dechrau'r broses PIP.



Darparydd: Adref Cyf

Cynllun: Cynllun Cefnogi Tenantiaeth

Mitchell, 50, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Mitchell ei gyfeirio at gefnogaeth gan y staff yng Nghanolfan Cyngor Tai RhCT. Roedd Mitchell a'i deulu wedi derbyn gorchymyn troi allan o'u heiddo ar rent preifat am fod eu landlord yn gorfod gwerthu ei holl asedau. Yn dilyn damwain, gadawyd Mitchell yn anabl ac yn gaeth i'r tŷ. Mae e'n gwbl ddibynol ar ei wraig sy'n ofalwr llawn amser iddo. Yn sgil difrifoldeb ei anabledd, roedd yn ofynnol iddo gael tŷ wedi ei adeiladu'n bwrpasol ar ei gyfer, a gwnaeth Tai Rhondda, Cymdeithas Dai leol, ailgynllunio cynllun gwreiddiol ar gyfer dau dŷ pâr i'w haddasu a'u newid i fod yn fyngalo pum llofft a fyddai'n diwallu anghenion y teuluoedd yn llwyr.

Roedd y cyfnod adeiladu yn llawer hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd Mitchell ei gefnogi gan Adref i gysylltu â'r Ganolfan Cyngor Tai, Tai Rhondda a Saville's (yr asiant a oedd yn delio â materion y landlord). Ar sawl achlysur, cafodd Mitchell gymorth i estyn dyddiad troi allan gan fod Mitchell yn bryderus y byddai ef a'i deulu'n ddigartref. Cafodd Mitchell a'i deulu gefnogaeth oddi wrth Adref i ddeall cyfraith ddigartrefedd a'i arwain drwy'r posibilrwydd o orfod cael mynediad at lety argyfwng. Dywedodd Mitchell *'Heb gefnogaeth Adref, nid yw e'n gwybod sut y byddai wedi ymdopi i ddelio â'r sefyllfa yr oedd ynddi.'*

Yn y pen draw roedd y byngalo yn barod a chefnogwyd Mitchell â phob agwedd o'r symud, roedd hyn yn cynnwys ei gefnogi i gael mynediad at drafnidiaeth i'w hun oherwydd yn sgil ei anabledd a'i faint nid oedd yn gallu defnyddio cwmni tacsï arferol. Cafodd gefnogaeth oddi wrth ei swyddog cefnogi tenantiaeth i archebu trafnidiaeth gymunedol gyda Chronfa Noreen Davies, Adref, yn talu amdani. Cafodd Mitchell gefnogaeth oddi wrth Adref hefyd i wneud cais am Daliad Budd-dal Tai yn ôl Disgresiwn i dalu am gwmni symud tŷ. Heb y gefnogaeth hon, dywedodd Mitchell nad oedd yn gwybod wir sut y byddai wedi ymdopi i dalu am y gwasanaeth.

Cefnogaeth a Ddarparwyd:- Rhoddodd Adref gefnogaeth i Mitchell i wneud cais am fudd-dal tai ar gyfer y ddau dŷ gan arbed dyledion i gronni. Rhoddwyd cymorth i hysbysu'r Awdurdod Lleol am y newid i'w gyfeiriad gan y gallai hyn fod wedi effeithio ar ei gais am fudd-dal tai. Ar ôl i Mitchell gael cartref addas, cafodd y teulu gymorth oddi wrth Adref o ran y swm sylweddol o ddyled oedd ganddynt. Gwnaeth Adref ei gefnogi i gysylltu â Chyngor ar Bopeth, nad ydynt fel arfer yn ymweld â'r cartref ar gyfer dyled, fodd bynnag, yn sgil difrifoldeb anabledd Mitchell, gwnaethant gytuno i gwrdd ag ef yn ei gartref er mwyn cwblhau'r gorchymyn adfer dyled. Ar ddiwedd y gefnogaeth dywedodd Mitchell *'bu'r gefnogaeth yn anhygoel, ac ni fyddai e wedi gallu ymdopi hebddo.'*

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Mitchell a'i deulu'n teimlo'n ddiogel bellach yn eu cartref sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae dyledion Mitchell yn cael sylw bellach drwy orchymyn adfer dyled, ac mae hynny'n rhyddhad iddo. Mae gan Mitchell gyllideb i'r cartref ac mae wedi gosod cyfarwyddiadau â'i fanc i wneud yn siŵr fod biliau yn cael eu talu ac nad yw'n mynd i ôl-ddyled.
- Mae Mitchell yn derbyn ymweliadau â'r cartref bellach oddi wrth giropodydd ac arbenigwyr eraill er gwaethaf clywed nad oedd hynny'n bosibl. Mae hyn yn sicrhau fod Mitchell yn aros mor iach ag sy'n bosibl. Mae Meddyg Teulu Mitchell wedi ymweld

â'i gartref bellach a rhagnodi meddyginiaeth gwrth-iselder iddo i fynd i'r afael â'i iechyd meddwl.

- Mae Mitchell bellach yn byw'n hapus mewn tŷ newydd ei addasu sy'n addas i'w anghenion. Mae e'n gallu gadael y tŷ yn ei gadair olwyn ac ymgysylltu â digwyddiadau yn y gymuned. Ar ôl i Adref gwblhau adolygiad diwedd gwasanaeth dywedodd Mitchell y canlynol;

“Bu'r gefnogaeth yn anhygoel ac ni fuaswn wedi gallu ymdopi hebddo.”

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Ni fu raid i Mitchell gael gofal preswyl. – Cyfartaledd gwariant gros wythnosol i gefnogi oedolion ag anabledd corfforol mewn gofal preswyl yw - **£920** yr wythnos..
- Nid oedd yn ofynnol i Mitchell gael gweithiwr cymdeithasol mwyach - Gweithiwr cymdeithasol - gwasanaethau oedolion: cost yr awr yw, gyda chostau cymwysterau yw - **£59** yr awr.
- Gwnaethom ni lwyddo i symud y teulu cyn iddynt gael eu troi allan – Cyfartaledd cost ariannol troi allan cymhleth yw - **£7,276** y digwyddiad.
- Nod oedd angen i'r teulu fynd i lety dros dro o ganlyniad i'n hymyrraeth - Llety dros dro - cyfartaledd cost wythnosol o roi cartref i deulu digartref mewn llety hostel yw - **£117** yr wythnos.
- Ni wnaeth Mitchell golli dim rhagor o apwyntiadau claf preswyl - Cleifion Preswyl Ysbyty - cyfartaledd cost am bob episod (derbyn dewisol a heb fod yn ddewisol) **£1863** am bob ymweliad.
- Trefnwyd ymweliadau â'r cartref fel nad oedd Mitchell yn colli dim mwy o achosion Cleifion Allanol i'r Ysbyty - cyfartaledd cost am bob presenoldeb claf allanol yw - **£114** am bob ymweliad.



Darparydd: Adref Ltd

Cynllun: Cynllun Cefnogi Tenantiaeth

Nancy, 50, Rhondda Cynon Taf

Cefndir:- Cafodd Nancy ei chyfeirio atom ni gan ei gweithiwr cymdeithasol. Roedd hi wedi bod yn byw mewn tŷ rhent preifat 3 llofft ers 10 mlynedd ag ystafell ymolchi i fyny 'r llofft. Nid oedd unrhyw symudedd ganddi felly roedd hi fwy neu lai yn byw ar y sofffa, nid oedd hi'n gallu ymdopi â'r grisiau i gael mynediad at yr ystafell ymolchi felly roedd hi'n defnyddio'r sofffa fel toiled, ble yr oedd hi'n gorwedd. Nid oedd unrhyw wresogi ganddi ac roedd ei ffwrn ac oergell wedi eu difethaf yn sgil tamprwydd yr eiddo. Roedd meddyg Nansi yn gwrthod ymweld â'r cartref oherwydd cyflwr yr eiddo. Mae Nancy yn fyddar a dim ond peth symudiad cyfyngedig sydd ganddi yn ei dwylo.

Cefnogaeth a Ddarparwyd:- Llwyddodd gweithwyr cefnogi Nancy i'w glanhau a rhoi dillad gwely cynnes, dillad a thoiled cemegol yn y gwagle byw. Yna gwnaeth Adref roi trefn ar yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddi'r hawl iddynt. Gwnaeth swyddog cefnogi tenantiaeth Nancy gysylltu ag Iechyd Amgylcheddol a wnaeth yn y pen draw gyflwyno hysbysiad ei bod hi yn gorfod gadael yr eiddo oherwydd ei gyflwr gwael. Yna roedd rhaid i Nancy symud i gartref gofal gan nad oedd yna lety priodol ar gael ar ei chyfer. Derbyniodd ofal ac ymweliad oddi wrth feddyg. Ar ôl cyfathrebu lawer â'r Adran Dai cynigiwyd fflat llawr gwaelod newydd sbon i Nansi. Gan nad oedd unrhyw eiddo na ddodrefn personol ganddi, gwnaethom gais am grant oddi wrth y Gronfa Gymorth yn ôl Disgresiwn, a oedd yn llwyddiannus. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i ddodrefn ail-law oddi wrth deulu aelod o'r staff. Gellir dweud fod Cefnogi Pobl wedi negyddu llawer o'r angen am ofal cymdeithasol ychwanegol. Gyda chymorth a chynghor ei Swyddog Cefnogi Tenantiaeth, mae gan Nansi'r rhwydweithiau cefnogi mewn lle bellach ac mae'n parhau i fyw'n annibynnol.

Deilliannau a gyflawnwyd:-

- Mae Nancy bellach yn byw mewn amgylchedd diogel. Pe byddai hi wedi cael ei gadael i ymdopi ar ei phen ei hun, mae'n amheus a fyddai hi'n parhau i fod yn fyw.
- Gyda chymorth staff, mae Nancy bellach yn cael ei hawliad llawn o fudd-daliadau, ac mae'r staff wedi dysgu iddi sut i gyllidebu ei hincwm, defnyddio cyfrifon ar-lein ac ati. Mae hi wedi dyfod yn fedrus wrth ddefnyddio'r un dull i archebu bwyd a nwyddau hanfodol ar-lein hefyd.
- Diolch i gadernid staff Adref, mae Nancy bellach wedi cael ei thrin am ei chyflyrau ac wedi derbyn y cymorth cywir am ei iechyd hynod o wael. Roedd Nancy'n byw mewn eiddo a oedd yn gwbl anaddas ar gyfer ei hanghenion. Roedd yr eiddo mewn cyflwr ofnadwy â hylendid gwael. Fodd bynnag, ers iddi hi symud, mae pethau'n gwbl wahanol ac mae gan Nancy yr offer bellach i'w helpu hi i reoli ei llety'n ddigonol.
- Eto, gyda chymorth oddi wrth staff Adref, mae Nancy bellach wedi cael y cymorth cywir ar gyfer ei chyflyrau meddygol ac mae'n ymdopi'n dda.

Cynlluniau i'r dyfodol:- Ni feddyliai Nancy y byddai hi fyth yn goroesi mor bell â hyn i'w dyfodol ar yr adeg y daeth Adref i ymwneud â hi. Ond mae hi bellach yn byw ei bywyd heb y stres roedd hi arfer ei ddioddef. Mae ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn eithaf gwylaidd; mae hi'n gallu edrych ar ei hol ei hun bellach ac yn mwynhau gwneud hynny.

Amcangyfrif o'r costau a ataliwyd:-

- Ataliad CP wedi arbed y GIG y swm o **£233** y digwyddiad am alw am ambiwlans a **£117** am bob mynychiad ag Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Nid oedd Meddygon Teulu yn fodlon galw heibio'r eiddo oherwydd cyflwr gwael yr eiddo.
- Yn yr achos hwn, roedd ataliad CP yn golygu fod Nancy wedi aros mewn gofal am 4 wythnos yn unig, gan fod y swyddog cefnogi tenantiaeth wedi sicrhau eiddo oddi fewn cyfnod byr gan arbed costau gofal pellach.
- Cost arhosiad wythnosol mewn gofal preswyl yw **£359**.
- Gwnaeth ataliad Cefnogi Pobl arbed ar gyfartaledd gostau unigol a chostau parhaus cysylltiedig â digartrefedd statudol sef - **£2,724**.



Astudiaethau Achos Cwm Taf 2017

Produced by:
Printing and Graphic Services Department,
Merthyr Tydfil County Borough Council

